# Cyngor Sir Caerfyrddin

# Polisi Aml-leoliad y Gwasanaethau Democrataidd

Daeth Cyfarfodydd Aml-leoliad (a elwir hefyd yn gyfarfodydd Hybrid) i rym fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - Adran 47, gyda'r nod o wella hygyrchedd a chyfranogiad mewn Llywodraeth Leol.

## *Cyflwyniad*

Pwrpas y Polisi hwn yw rhoi arweiniad i Gynghorwyr, Swyddogion a'r cyhoedd ar sut rydym yn rheoli ac yn cynnal cyfarfodydd Pwyllgorau aml-leoliad (hybrid).

Mae cyfarfodydd aml-leoliad (a elwir weithiau yn gyfarfodydd hybrid) yn gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd rhithwir, lle mae rhai Cynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor neu leoliad arall, a rhai yn mynychu o bell.

Yn ystod cyfarfodydd aml-leoliad, mae'n ofynnol yn gyfreithiol bod cyfranogwyr cyfarfodydd sy'n cael eu darlledu yn gallu "siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd" a "gweld ei gilydd".

Bydd cyfleusterau cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gael i bawb.

Fel Awdurdod Lleol, mae gennym ddyletswydd i wneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy’n galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i fynychu’r cyfarfodydd.

**Bydd cyfarfodydd aml-leoliad yn cael eu cynnal mor debyg â phosibl i gyfarfodydd arferol y Cyngor ac mae holl reolau’r cyfansoddiad yn berthnasol.**

## *Darlledu Cyfarfodydd*

Fel Cyngor byddwn yn sicrhau bod pob cyfarfod ffurfiol yn cael ei ddarlledu'n fyw ac ar gael i'w wylio yn yr Archif am 6 mis. Ni fydd unrhyw drafodaeth mewn perthynas ag eitemau eithriedig yn cael ei darlledu. Mae Adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnig y ddarpariaeth hon fel bod aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion.  Mae’r adran hon yn benodol berthnasol i gyfarfodydd sy’n agored i’r cyhoedd.

## *Hysbysiad o Gyfarfod*

Byddwn yn sicrhau bod pob Agenda yn nodi sut y gall Aelodau'r Pwyllgor, Swyddogion a'r Cyhoedd fynychu'r cyfarfod, a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi o leiaf 3 diwrnod cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynnu bod hysbysiadau o gyfarfodydd a gwybodaeth electronig yn ymwneud â chyfarfodydd yn parhau i fod ar gael mewn fformat electronig a bod ar gael am o leiaf chwe blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

Cyhoeddir agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol ar wefan yr Awdurdod.

Gellir gweld agendâu, adroddiadau a chofnodion yma

## *Mynychu'n gorfforol*

Ni ellir gorfodi cyfranogwyr i fynychu'n gorfforol ac nid oes cyfyngiad ar gyfranogwyr os ydynt yn dymuno mynychu unrhyw un neu bob cyfarfod yn gorfforol. Fodd bynnag, mae ymrwymiad yr Awdurdod i fod yn Garbon Sero Net yn un o'n prif amcanion corfforaethol. Gall cyfarfodydd aml-leoliad (hybrid) gyfrannu at amcan Sero net y Cyngor, ac mae mynychu o bell yn helpu drwy gyfyngu ar y teithio a'r cymudo a wnawn ac mae'n hanfodol i gyflawni hyn.

Ceisiwch fynychu o bell os ydych yn medru gwneud hynny.

## Mynychu o bell

- Gall aelodau a swyddogion y pwyllgor ymuno â chyfarfodydd o bell trwy Zoom os ydynt yn dymuno.
- Dylai Aelodau'r Pwyllgorau a'r Swyddogion ystyried eu hymddangosiad personol a'u cefndir, gwirio'r hyn y gall pobl ei weld y tu ôl i chi ac o'ch blaen, ceisio sicrhau nad oes modd gweld papurau eithriedig neu gyfrinachol yn y ffrwd fideo.
- Wrth fynychu o bell dylech gofio pan fyddwch ar y camera gall pawb weld eich amgylchedd, ceisiwch sicrhau eich bod mewn ystafell ar eich pen eich hun heb unrhyw beth i dynnu eich sylw (h.y. bydd modd gweld aelodau o'r teulu neu anifeiliaid anwes yn y cefndir). Gofynnwn i aelodau beidio â bwyta, symud o amgylch, na chynnal sgwrs un ai ar y ffôn neu wyneb yn wyneb tra byddant ar gamera. Os yw'n bosibl, trefnwch gefndir disylw.
- Er mwyn cynnal cyfrinachedd a sicrhau eich bod yn cadw at y Côd Ymddygiad, **mae'n rhaid i aelodau sy'n mynychu o bell fod ar eu pennau eu hunain pan fydd adroddiadau eithriedig yn cael eu hystyried.**

## *Paratoi ar gyfer cyfarfod Aml-leoliad*

- Dylech ymuno â'r cyfarfod aml-leoliad heb fod yn hwyrach na 15 munud cyn y dechrau i ganiatáu i'r Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd gael rhestr gywir o'r bobl sy'n bresennol a'r cyfle i ddatrys unrhyw broblemau'n ymwneud ag offer ar gyfer y rhai sy'n ymuno o bell.
- Sicrhewch fod eich offer TG wedi'u gwefru'n llawn neu wedi'u cysylltu â soced prif gyflenwad trydan gan fod cyfarfodydd o bell yn gallu defnyddio llawer o fatri. Bydd angen eich iPad a'ch gliniadur. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'ch iPad i ddarllen y gwaith papur ar yr ap Modern.gov a'ch gliniadur i gysylltu â Zoom os byddwch yn mynychu

o bell. Hefyd, gwnewch yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd neu mewn cyflwr tawel.

- Sicrhewch eich bod wedi darllen y gwaith papur cyn y cyfarfod. Paratowch yn drylwyr oherwydd bydd y Cadeirydd yn tybio bod pawb wedi darllen yr adroddiadau, bod unrhyw gyfraniadau'n hanfodol a bod ffocws i'r drafodaeth.

---


## *Yn ystod y cyfarfod*

---

- Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r cyfranogwyr. Dylai mynychwyr sy'n bresennol yn yr ystafell arwyddo'r gofrestr bresenoldeb.

- Bydd y Cadeirydd yn croesawu pawb i'r cyfarfod ac yn amlinellu sut y bydd y cyfarfod yn gweithio.

- Er mwyn helpu gyda threfniadau'r cyfarfod, os ydych yn gwybod ymlaen llaw eich bod am siarad, rhowch wybod i'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd cyn i'r cyfarfod ddechrau. Os ydych yn dymuno siarad, defnyddiwch y cyfleuster 'codi llaw' ar Zoom neu codwch eich llaw yn gorfforol os ydych yno wyneb yn wyneb.

- Os ydych yn mynychu o bell a bod angen cyfieithu ar y pryd arnoch chi o'r Gymraeg i'r Saesneg, dylech glicio ar y botwm cyfieithydd a dewis 'Saesneg'. Os ydych yn bresennol yn gorfforol, mae clustffonau ar gael yng nghefn y Siambr a dylid eu plygio i mewn i'r uned meicroffon. Dewiswch eicon y clustffon  a dewiswch Saesneg o'r rhestr.

- Dim ond pan fydd y Cadeirydd yn eich gwahodd i siarad y dylech wneud hynny. Dylai unrhyw un sy'n siarad gyhoeddi ei enw **cyn gwneud sylw**. Wrth gyfeirio at adroddiad, tudalen, neu sleid benodol dylech ddweud rhif y dudalen i sicrhau bod gan bob aelod ddealltwriaeth glir bob amser o'r hyn sy'n cael ei drafod.

- I siarad o bell, trowch y botwm meicroffon a'ch camera ymlaen ar y bar offer ar waelod eich sgrin. I siarad yn y Siambr, pwyswch y botwm meicroffon ar y ddyfais o'ch blaen

  <u>I'r rhai sy'n mynychu'n gorfforol</u>, os bydd y golau coch uwchben botwm y meicroffon yn ymddangos, mae'r meicroffon ymlaen a gallwch siarad. Os bydd y golau gwyrdd (fflachio) uwchben y botwm meicroffon yn ymddangos, derbynnir eich cais i siarad ac fe'ch rhoddir ar y rhestr aros:
  - **Golau gwyrdd ymlaen:** Rydych ar y rhestr aros.
  - **Golau gwyrdd yn fflachio:** Chi yw'r cyntaf ar y rhestr aros.
  - Ni allwch siarad nes bod y **golau coch** uwchben y botwm **meicroffon** yn ymddangos

- Dim ond un person gaiff siarad ar yr un pryd.

- Bydd cyfarfodydd aml-leoliad yn cael eu cynnal mor debyg â phosibl i gyfarfodydd arferol y Cyngor ac mae rheolau cyfansoddiadol arferol yn berthnasol.

- Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn arfer eu hawliau i siarad yn y cyfarfod naill ai yn bersonol neu drwy fynychu o bell, bydd y Cadeirydd, fel rhan o'i gyflwyniad, yn egluro'r weithdrefn ar gyfer cymryd rhan a fydd yn adlewyrchu'r elfennau perthnasol uchod. Rhaid i aelodau'r cyhoedd lynu wrth y weithdrefn hon.

- Cofiwch, gall y cyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd neu gael ei we-ddarlledu felly mae'n bwysig eich bod yn ymddwyn yn yr un modd a fyddech fel arfer mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus.

- Mae angen i Gynghorwyr sicrhau eu bod yn aros yn y cyfarfod drwy gydol y trafodaethau ac yn ystod y broses bleidleisio er mwyn cynnal uniondeb y broses o wneud penderfyniadau a lleihau'r cyfle i herio unrhyw benderfyniad yn gyfreithiol. Os oes angen i Gynghorydd adael y cyfarfod dros dro, dylai wneud yn siŵr ei fod yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn bersonol neu drwy'r cyfleuster sgwrsio ar Zoom.  Bydd y swyddogaeth sgwrsio dim ond ar gael rhwng aelod unigol a'r gwesteiwr/cyd-westeiwr at ddibenion rheoli'r cyfarfod a mynychu'r cyfarfod hwnnw.

- O ystyried natur cyfarfodydd hybrid, bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei ddisgresiwn llwyr o ran ym mha drefn y caiff Aelodau gyfle i gyfrannu at y drafodaeth ar eitem benodol. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y cyfarfod.

- Mae'n rhaid i gyfranogwyr cyfarfodydd sy'n cael eu darlledu allu siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd a gweld ei gilydd. Mae'r gallu i weld a chael eich gweld yn berthnasol yn bennaf pan fydd cyfranogwr yn siarad. Er mwyn annog pob i gymryd rhan, gofynnir i <u>bob aelod sicrhau bod ei gamera ymlaen yn ystod cyfarfodydd</u>, mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfarfodydd lled-farnwrol fel y Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu. Ar gyfer cyfarfodydd eraill, gall y Cadeirydd benderfynu fel y gwêl yn ddoeth a oes angen i gyfranogwyr gadw eu camerâu ymlaen pan nad ydynt yn siarad, y sefyllfa ddiofyn fodd bynnag yw y dylai'r camerâu fod ymlaen bob amser. Mae'n anochel y bydd adegau pan fydd angen i gyfranogwr o bell analluogi ei gamera oherwydd cysylltiad gwael/problemau rhyngrwyd. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r cyfranogwr ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio i hysbysu Cadeirydd y cyfarfod a staff y gwasanaethau democrataidd o'r mater. Oherwydd materion cysylltedd, efallai na fydd yn bosibl i bob camera aros ymlaen yn ystod cyfarfodydd llawn y cyngor, ond mae disgwyl i bob aelod droi eu camerâu ymlaen wrth siarad.

- Os bydd Aelodau yn colli cysylltiad yn ystod y cyfarfod byw, dylent wneud bob ymdrech i ailgysylltu, ond bydd y cyfarfod yn parhau cyn belled â bod cworwm yn y cyfarfod. Os bydd Aelod yn ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach, mae'n rhaid iddo gyflwyno'i hun ar unwaith i'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, a dim ond ar yr eitemau cyflawn hynny sy'n weddill ar yr agenda y caiff wneud sylwadau neu bleidleisio.  Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar Zoom.

- Os na fydd y nifer angenrheidiol o bobl yn bresennol i gael cworwm, bydd y cyfarfod yn dod i ben ar unwaith.

## *Datgan Buddiannau*

Os bydd Cynghorydd neu swyddog yn datgan buddiant rhagfarnol mewn cyfarfod Aml-leoliad, dylai'r person hwnnw adael y cyfarfod oni bai bod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu gollyngiad penodol.

Ar gyfer mynychwyr o bell, bydd y Cynghorydd neu'r Swyddog yn cael ei symud o'r cyfarfod gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'i roi yn yr 'ystafell aros' wrth i'r eitem berthnasol gael ei thrafod. Os yw mynychwyr yn y siambr, byddant yn gadael y siambr pan fydd yr eitem yn cael ei thrafod. Ar ddiwedd yr eitem honno bydd y person hwnnw'n cael ei wahodd yn ôl i'r cyfarfod pan fydd y drafodaeth sy'n ymwneud â'r eitem ragfarnol wedi dod i ben. Os na fydd y person hwnnw'n ymateb i'r alwad i ailymuno, bydd y cyfarfod yn parhau hebddo ar yr amod bod cworwm.

## *Pleidleisio*

Bydd y pleidleisio yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r rhai sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn y cyfarfod. Disgwylir i'r rhai sy'n mynychu wyneb yn wyneb bleidleisio â'u llaw gorfforol, dylai'r rhai sy'n mynychu o bell bleidleisio drwy'r swyddogaeth 'codi llaw' ar Zoom, a bydd nifer y pleidleisiau'n cael eu cyfuno. Os gofynnir am bleidlais wedi'i chofnodi, bydd yr holl Aelodau sy'n bresennol yn cael eu galw yn ôl y gofrestr (mae hyn yn golygu y bydd enw pob aelod yn cael ei alw a gofynnir iddynt a ydynt o blaid, yn erbyn neu'n ymatal rhag pleidleisio.) Mae opsiynau am system bleidleisio electronig gyfunol yn cael eu hystyried a bydd y dull pleidleisio'n cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

Bydd y Cadeirydd neu'r Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi a yw'r bleidlais wedi'i derbyn neu ei gwrthod. Ni chyhoeddir unrhyw ffigyrau pleidleisio oni bai bod pleidlais wedi'i chofnodi wedi cael ei galw (CPR 16.5) neu fod aelod wedi gofyn i'w bleidlais unigol gael ei chofnodi (CPR 16.6).

Yn ôl y drefn arferol, ni fydd manylion ynghylch sut y pleidleisiodd yr Aelodau yn cael eu cadw na'u cofnodi oni bai bod Pleidlais wedi'i Chofnodi yn cael ei galw.

Bydd pleidleisio ar Benodiadau Staff yn cael ei gynnal drwy gynnal pleidlais.

## *Eitemau eithriedig*

Os bydd agenda Pwyllgor yn cynnwys adroddiad eithriedig ac yn dilyn unrhyw benderfyniad i gynnal sesiwn breifat, bydd y darllediad yn cael ei atal. Bydd unigolion nad oes ganddynt hawl i fod yn bresennol yn ystod yr eitem yn gadael y Siambr a bydd y rhai sy'n mynychu o bell yn cael eu symud o'r cyfarfod rhithwir gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. Ni chaniateir i fynychwr ffilmio, tynnu lluniau neu recordio sain unrhyw ran o'r cyfarfod sydd wedi'i heithrio ('ar gamera').

## *Presenoldeb aelodau o'r cyhoedd*

Bydd yr oriel gyhoeddus ar agor fel arfer gyda lle i uchafswm o 50 person. Gall aelodau o'r cyhoedd ddewis mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb o'r oriel gyhoeddus neu weld y cyfarfodydd ar-lein

Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud sylwadau/gofyn cwestiynau neu'n cyflwyno deiseb yn cael y dewis naill ai i fynychu'r cyfarfod yn bersonol (os oes lle) neu o bell. Os ydynt yn mynychu o bell, bydd canllawiau presenoldeb o bell yr Awdurdod yn berthnasol. Os bydd rhywun yn bresennol yn gorfforol, bydd trefniadau ar gyfer presenoldeb corfforol yn cael eu darparu gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Gofynnir i'r wasg fynychu lleoliad y cyfarfod wyneb yn wyneb neu wylio ffrwd fyw y cyfarfod.